# Canllaw i Person Ifanc i Cynhadledd Amddiffyn Plant

Mae’r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

## Cyflwyniad

Gobeithio y bydd y daflen wybodaeth hon yn dy helpu i ddysgu mwy am Gynhadledd Amddiffyn Plant a pha ran y gelli ei chwarae ynddi.

Rydym yn deall efallai dy fod yn bryderus ac yn ansicr o ddiben y gynhadledd a'r hyn a fydd yn digwydd, ond mae’r Gwasanaethau Addysg a Phlant eisiau gweithio gyda ti i helpu i dy gadw’n ddiogel rhag niwed sylweddol.

Os oes gennyt unrhyw gwestiwn sydd heb ei hateb yn y daflen wybodaeth hon, neu os nad wyt yn deall unrhyw beth, fe fydd dy Weithiwr Cymdeithasol yn gallu dy helpu.

## Beth yw niwed sylweddol?

Niwed sylweddol yw rhywbeth sydd yn digwydd i ti sy'n dy atal rhag byw dy fywyd i'r eithaf a allai olygu risgiau difrifol i dy iechyd a datblygiad.

## Beth yw Cynhadledd Amddiffyn Plant?

Cynhadledd Amddiffyn Plant yw cyfarfod a drefnir gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant os yw pobl yn poeni am dy ddiogelwch neu fod ganddynt bryderon ynghylch sut yr wyt yn cael dy drin gan y bobl sy'n gofalu amdanat.

Mae'n defnyddio dull 'Ymarfer sy’n Seiliedig ar Cryfderau’ a fydd yn dy gynnwys ti. Fe ofynnir i ti beth yw dy barn, nodi beth sy’n gweithio’n dda ar hyn o bryd, beth fydd yn dy helpu i cadw ti’n ddiogel, beth yw'r peryglon i ti a beth allai achosi niwed sylweddol i ti. Bydd Cadeirydd y gynhadledd hefyd yn gofyn beth mae dy rhiant (rhieni) / gofalwr (wyr) yn ei feddwl.

# Canllaw i Person Ifanc i Cynhadledd Amddiffyn Plant

Os bydd y cyfarfod yn penderfynu eu bod yn poeni am dy ddiogelwch a pha gymorth y gallai dy deulu fod ei angen i dy gadw'n ddiogel yn y dyfodol, byddi yn cael cyfle i helpu llunio cynllun gweithredu i wneud pethau'n well i ti. Gelwir hyn yn Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth.

## Beth sy’n digwydd yn ystod y gynhadledd?

Dyma beth fydd yn digwydd:-

- Bydd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn cwrdd â ti cyn y cyfarfod i siarad am beth ddylai ddigwydd ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennyt am y cyfarfod.
- Cei gyfle i weld be mae weithwyr proffesiynol eraill wedi ysgrifennu ar gyfer y cyfarfod ynghylch pam fod ganddynt bryderon. Bydd y cadeirydd yn dy gefnogi i gael dweud dy ddweud ac yn dy annog i ofyn unrhyw gwestiynau.
- Gofynnir i bawb yn y cyfarfod ddweud pam eu bod yn cymryd rhan a sut y maent yn dy adnabod a dy deulu.
- Bydd dy Weithiwr Cymdeithasol yn esbonio pam eu bod yn poeni amdanat a pham eu bod yn teimlo y gelli fod mewn perygl.
- Byddi yn cael dy annog i ddweud sut wyt yn teimlo am y pryderon a'r hyn wyt ti’n meddwl allai helpu ti a dy deulu.

Bydd pawb yn y cyfarfod yn trafod yr holl wybodaeth ac yn dod i benderfyniad ynghylch a os ydynt yn teimlo dy fod mewn risg o niwed sylweddol.

## Pwy fydd yn y gynhadledd?

Mae’r bobl sy’n cael eu gwahodd fel arfer yn cynnwys:-

- Dy rhiant(rhieni)/gofalwr (wyr)
- Dy Weithiwr Cymdeithasol
- Rhywun o dy ysgol
- Cadeirydd (rhywun sy’n rhedeg y cyfarfod)
- Cofnodwr (rhywun sy’n cymryd nodiadau)

# Canllaw i Person Ifanc i Cynhadledd Amddiffyn Plant

- Rhywun o’r Heddlu
- Dy Meddyg Teulu
- Nyrs ysgol
- Unrhyw berson arall sydd yn rhoi cefnogaeth i dy deulu

Os oes rhywun nad wyt yn dymuno iddynt gael eu gwahodd i'r gynhadledd, dora wybod naill i dy Weithiwr Cymdeithasol neu Cadeirydd y gynhadledd cyn y cyfarfod.

Mi elli hefyd ofyn am eiriolwr.

## Beth ydi eiriolwr?

Nid yw eiriolwr yn gweithio i Gwasanaethau Addysg a Phlant. Unigolyn ydyw sydd yno i dy helpu ti a phobl eraill i gael dweud eich dweud. Mae eiriolydd yno i dy helpu, a dim ond yr hyn yr wyt wedi ei ddweud wrthynt am ddweud y byddant yn ei adrodd nôl i’r gynhadledd.

Os wyt ti eisiau eiriolwr ar gyfer dy cynhadledd siarada gyda dy Weithiwr Cymdeithasol. Yna bydd eiriolwr yn dod i ymweld â ti ar amser ac mewn lleoliad sy’n gyfleus i ti. Byddant yn siarad â ti am y gynhadledd i wneud yn siŵr dy fod yn deall a byddant yn dy helpu i feddwl am yr hyn yr wyt eisiau i’r bobl yn y gynhadledd wybod am dy dymuniadau a teimladau. Yna byddant naill ai yn bresennol yn y cyfarfod gyda ti, neu gallant fynd yn dy le os nad wyt ti ddim eisiau mynd.

## A allaf i ddod i’r gynhadledd?

Gelli, os mai dyna yw dy dymuniad. Ddylet siarad gyda dy Weithiwr Cymdeithasol, eiriolwr neu oedolyn arall yr wyt yn teimlo'n agos atynt cyn i ti penderfynu.

Os nad wyt ti eisiau fod yn bresennol, ond mae gennyt rywbeth yr hoffet ei ddweud, gelli naill ai siarad â Chadeirydd y gynhadledd, ysgrifennu llythyr atynt neu rhannu dy farn trwy OneApp (ap a grëwyd gan Mind of My Own). Gall dy Weithiwr Cymdeithasol, eiriolwr, neu oedolyn arall yn y gynhadledd fynegi dy farn yn y cyfarfod.

# Canllaw i Person Ifanc i Cynhadledd Amddiffyn Plant

## Beth yw’r Gofrestr Amddiffyn Plant?

Dyma restr o blant a phobl ifanc y teimlir eu bod mewn perygl o niwed sylweddol ac angen cael eu hamddiffyn yn Sir Ddinbych. Caiff y gofrestr ei chadw'n gyfrinachol a staff awdurdodedig yn unig a fydd yn cael gweld y wybodaeth arni.

## Beth fydd yn digwydd os bydd fy enw i yn cael ei roi ar y gofrestr?

Os daw’r gynhadledd i’r penderfyniad bod dy enw angen cael ei roi ar y gofrestr, fe gytunir ar Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth a bydd Grŵp Craidd yn cael ei ffurfio.

## Beth yw Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth?

Mae'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn gynllun ysgrifenedig sy'n manylu’n glir beth yw’r nodau, sut mae angen eu cyflawni a beth allai fod yn ddefnyddiol i helpu cyflawni’r nodau hyn.

Bydd yn cael ei gwirio'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio a bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn ei rannu gyda chi. Byddant hefyd yn gofyn i chi sut rydych chi’n meddwl ei fod yn gweithio a ph'un a ydych am ychwanegu unrhyw beth.

## A oes perygl y gallaf gael fy nghymryd oddi wrth fy rhieni?

Ni all y gynhadledd dy gymryd oddi wrth dy rhieni. Dim ond gwneud penderfyniadau ynghylch â a ddylai dy enw cael ei roi ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac awgrymiadau am sut y bydd pawb yn cydweithio i gadw ti’n ddiogel ac yn iach yn unig y gall y gynhadledd ei wneud.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os yw dy enw wedi cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, bydd grŵp bychan o bobl (a elwir yn Grŵp Craidd) yn cael eu ffurfio i sicrhau bod y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn cael ei roi ar waith. Byddant yn gwirio bod pawb yn gweithio gyda’i gilydd i cyflawni’r nodau y cytunwyd arno a dy fod yn ddiogel ac yn cael gofal priodol. Os bydd

cyfarfod o’r fath yn cael ei gynnal, cei dy wahodd i fod yn bresennol a byddi yn derbyn taflen wybodaeth a fydd yn egluro'r broses yn fwy manwl.

## Pa mor hir fydd fy enw yn aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?

Ar ôl tri mis, cynhelir cynhadledd arall (a elwir Cynhadledd Adolygu) a fydd yn penderfynu a wyt dal angen cynllun amddiffyn, ac os ydynt, a oes angen newid y cynllun. Yna cynhelir Cynadleddau Adolygu o leiaf bob 6 mis, a byddi yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol.

Os bydd y bobl yn yr adolygiad yn penderfynu nad wyt mewn perygl o niwed sylweddol mwyach ac y byddi yn parhau i fod yn ddiogel heb unrhyw gymorth pellach gan bobl o du allan i dy deulu, yna fe ddaw’r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth i ben a bydd dy enw yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

## Beth fydd yn digwydd os na fydd fy enw i yn cael ei roi ar y gofrestr?

Weithiau, bydd y gynhadledd yn penderfynu nad wyt mewn perygl o niwed sylweddol ac nad oes angen rhoi dy enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Os mai dyma fydd yn digwydd, gallai aelodau’r gynhadledd benderfynu y gallai dy deulu elwa o gymorth gwirfoddol, ac fe allent gytuno ar Gynllun Gofal a Chymorth. Bydd hyn yn golygu y bydd grŵp llai o bobl yn cwrdd yn rheolaidd gyda ti a dy deulu i sicrhau dy fod yn gwneud cystal ag y gelli ac yn sicrhau dy fod yn cael dy cefnogi nes na fyddi di na'r teulu ei angen mwyach.

## A allaf apelio os bydd fy enw yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?

Gelli apelio os wyt yn ddigon hen i ddeall yn iawn am y Gofrestr Amddiffyn Plant a pham fod dy enw arni. Gall dy rhiant/gofalwr apelio hefyd.

Dim ond gofyn i’r gynhadledd ail-ymgynnull y gall gwrandawiad apêl ei wneud. Nid oes ganddo’r grym i dynnu enwau oddi ar y gofrestr.

Gofynna i dy Weithiwr Cymdeithasol neu eiriolwr i gael gwybodaeth am sut i apelio.

# Canllaw i Person Ifanc i Cynhadledd Amddiffyn Plant

## Pa mor hir y mae’r cynhadledd yn para?

Mae’r rhan fwyaf o gynadleddau yn para am uchafswm o 90 munud.

## Cadeirydd y gynhadledd

Nid yw Cadeirydd y gynhadledd yn ymwneud â’r gwaith o ddydd i ddydd gyda ti a dy deulu. Maent yn annibynnol a bydd y Cadeirydd yn awyddus i gwrdd â ti cyn y gynhadledd i sicrhau bod dy lais yn cael ei glywed ac egluro i ti beth fydd trefn y gynhadledd.

## A allaf i ddod i'r cyfarfod?

Celli os mai dyna yw dy ddymuniad, ac os cytunir dy fod yn ddigon hen i ddeall.

Fe ofynnir hefyd i dy Weithiwr Cymdeithasol a'r rhiant(rhieni) neu ofalwr(wyr) os ydynt yn credu ei fod yn syniad da i ti i fod yno.

Os wyt yn mynychu, gall Cadeirydd y gynhadledd benderfynu mai dim ond am ran o’r cyfarfod y gelli fod yn bresennol, ac efallai y gofynnir i ti gadael pan fydd y cyfarfod yn trafod gwybodaeth gyfrinachol am bobl eraill yn dy deulu.

## A allaf ddod â rhywun gyda mi?

Gelli, ond bydd rhaid iddynt fod yn oedolyn, a gallant fod yn berthynas, yn rhywun yr wyt yn ei adnabod yn dda ac y gelli ymddiried ynddynt, neu’n eiriolwr. Gall dy Weithiwr Cymdeithasol siarad gyda ti am hyn.

## Sut allaf i gymryd rhan os nad wyf eisiau mynd?

Mae dy dymuniadau a teimladau yn bwysig iawn a gelli adael i’r cyfarfod wybod beth wyt ti’n ei feddwl hyd yn oed os wyt yn penderfynu peidio mynd. Gelli barhau i gymryd rhan trwy:-

- Siarad â Gweithiwr Cymdeithasol er mwyn iddynt ysgrifennu dy dymuniadau a teimladau yn eu hadroddiad.

# Canllaw i Person Ifanc i Cynhadledd Amddiffyn Plant

- Ysgrifennu beth hoffet ti i'r cyfarfod ei wybod er mwyn i dy Weithiwr Cymdeithasol ei gymryd i'r cyfarfod gyda nhw.
- Gofyn i eiriolwr fynd i'r cyfarfod ar dy rhan.
- Gofyn i oedolyn arall y mae Cadeirydd y gynhadledd yn cytuno sydd yn addas i fynd ar dy rhan.
- Cwrdd â Chadeirydd y gynhadledd cyn y cyfarfod i ddweud wrthynt beth yr wyt eisiau ei ddweud.
- Llenwi Ffurflen Ymgynghoriad Cyn-Gynhadledd Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc.
- Rhannu dy farn trwy OneApp (Mind of My Own).Os nad oeddet ti'n bresennol yn y cyfarfod, bydd dy Weithiwr Cymdeithasol yn ymweld â ti cyn gynted ag y bo modd i esbonio beth ddigwyddodd, pa benderfyniadau a wnaethpwyd a beth fydd yn digwydd nesaf.

## Beth os ydw i am i'r gynhadledd gael ei chynnal yn Gymraeg neu unrhyw iaith arall?

Siarada gyda dy Weithiwr Cymdeithasol er mwyn i'r trefniadau gael eu gwneud. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn deall sut wyt yn teimlo ac yn gwybod beth sydd wedi bod yn digwydd.

## Allaf i gwyno?

Rydym yn gwrando ar dy farn a byddwn bob amser yn ceisio ein gorau, ond ni allwn addo bob amser bod yr hyn yr wyt ti eisiau yn bosibl.

Os wyt yn anhapus gyda'r hyn mae unrhyw berson sy'n gweithio gyda ti wedi ei wneud, mae gennyt hawl i wneud cwyn. Gelli cysylltu â'r Swyddog Cwynion mewn unhryw un o'r ffyrdd canlynol neu gofynna i dy Weithiwr Cymdeithasol neu eiriolwr i dy helpu i wneud hyn:-

| | |
|---|---|
| Rhif rhadffôn: | 0800 032 1099 |
| E-bost: | ssdcomments@denbighshire.gov.uk |
| Ysgrifennwch at: | Swyddog Cwynion - Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, |

Sir Ddinbych. LL18 3DP

We: sirddinbych.gov.uk/eichllais

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.